YMATEB PLANT YNG NGHYMRU I'R YMGYNGHORIAD AR Y GORCHYMYN CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL ARFAETHEDIG YNGHYLCH PLANT SY'N AGORED I NIWED

Cyflwyniad

Mae Plant yng Nghymru yn falch i gyflwyno ymateb i Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch plant sy'n agored i niwed.

Fel y sefydliad ymbarél cenedlaethol i blant yng Nghymru, gan gynrychioli buddiannau'r sectorau plant statudol, gwirfoddol ac annibynnol, mae'r sefydliad yn anelu i:

- Gwneud Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn realaeth yng Nghymru
- Ymladd i gael gwasanaethau ansawdd uchel cynaliadwy ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau sylw a thriniaeth arbennig ar gyfer plant mewn angen
- Sicrhau fod gan blant a phobl ifanc lais mewn materion sy'n effeithio arnynt

Ni yw'r sefydliad ymgyrchu cenedlaethol a arweiniodd at y Pwyllgor Craffu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a grëwyd yn ddiweddar a chyn hynny buom yn cydlynu ystod o ymgyrchoedd a arweiniodd at y Ddraig Ffynci, Comisiynydd Plant Cymru, y Strategaeth Tlodi Plant , 'Sdim Curo Plant a'r Cynllun Gweithredu Rhianta. Fe wnaethom hefyd baratoi papurau gwybodaeth pan oedd Deddf Plant 2004 yn mynd drwy'r Senedd.

Yn anffodus, yng nghyswllt y gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hwn, mae'r cyfyngiadau amser rhwng derbyn llythyr 28 Medi 2007 wedi'i gwneud yn amhosibl casglu barn un ai aelodaeth amlddisgyblaethol a thraws-sector lawn Plant yng Nghymru neu farn y plant a'r bobl ifanc y mae Plant yng Nghymru a'i aelodau yn gweithio gyda hwy yn ein sesiynau ymgynghori ymarferol. Teimlwn fod hyn yn anffodus ac yn colli cyfle gan ei bod yn bwysig cael ymgynghoriad ystyrlon ac yn neilltuol mae'n cymryd amser i baratoi deunydd cyfeillgar i blant, yn arbennig os yw i fod yn hygyrch i blant anabl er enghraifft.

Cyffredinol

1. Mae Plant yng Nghymru yn gefnogol iawn i ddatblygiadau deddfwriaethol sy'n cefnogi set o bolisïau a ddatblygir yng Nghymru ar gyfer plant a phobl ifanc.

2. Croesawn yn fawr fwriad y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol i ddod ynghyd â'r ddeddfwriaeth bresennol a deddfwriaeth newydd sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc agored i niwed yng Nghymru. Er ein bod yn croesawu'r ffocws ar blant agored i niwed ar y cam cynnar hwn yn y fframwaith deddfwriaethol newydd, gan gydnabod cyfleoedd

deddfwriaethol y Cynulliad a phwysigrwydd defnyddio'r pwerau newydd yn ddi-oed, teimlwn fod rhai penderfyniadau strategol eang a fedrai fod yn werth eu hystyried yn fanwl ar y cam hwn er mwyn gosod sylfaen ar gyfer datblygu deddfwriaeth yng Nghymru yng nghyswllt plant a phobl ifanc yn y dyfodol.

2.1. Yn gyntaf, ystyriaeth i ddod ynghyd â deddfwriaeth sy'n canoli ar blant o'r ystod lawn o ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd sydd wedi ei ddatganoli ac sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Er enghraifft, mae anghysonderau ar hyn o bryd rhwng yr egwyddorion y mae llawer o'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn seiliedig arnynt yng nghyswllt hawliau plant. Mae hyn yn neilltuol o berthnasol wrth ystyried addysg ac iechyd, yn fwy felly na dan ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn gyfle i ddod ynghyd â pheth o'r gwaith ymyriad cynnar ardderchog yn y Strategaeth Troseddu Ieuenctid ar gyfer Cymru a hefyd i ymgorffori'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Plant A Gwasanaethau Mamolaeth yn ogystal â pholisïau allweddol eraill megis y strategaeth CAMHS. Hefyd gyda'r isadrannau plant ac ieuenctid wedi dod ynghyd o fewn Llywodraeth y Cynulliad, rhaid cael gweledigaeth o ddod â'r agweddau hynny ynghyd yn y dyfodol.

2.2. Yn ail, os yw'r Cynulliad yn dymuno gweld ei bolisïau seiliedig ar hawliau'n cael eu gweithredu, mae angen ymgorffori un ai bob un o Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith ddomestig neu'n well byth gynnwys yr holl Gonfensiwn yn systematig mewn darn trosfwaol o ddeddfwriaeth. Lobiodd Plant yng Nghymru yn galed am hyn yn ystod y Mesur Plant a arweiniodd at Ddeddf Plant 2004 a chredwn y dylid manteisio ar bob cyfle i weithredu hyn.

3. Mae angen cydweithredu parhaus a gweithgar gyda llywodraeth y Deyrnas Unedig am faterion nas datganolwyd megis tlodi plant, cosbi plant yn gorfforol, cyfiawnder ieuenctid a diogelu plant yng nghyswllt arweiniad i'r heddlu a'r gwasanaeth prawf. Gall fod yn werth egluro maint y cyfrifoldeb datganoledig yng nghyswllt tlodi plant i osgoi cloffi gan lywodraeth y DU ar faterion o'r fath.

(1) A fyddai termau'r Gorchymyn arfaethedig yn caniatau gweithredu'r agenda polisi ar blant agored i newid a thlodi plant drwy fodd Mesurau? Os na, sut y byddai angen ailddrafftio'r Gorchymyn arfaethedig a pham?

4. Mae'n bwysig cael cysondeb rhwng yr eirfa a ddefnyddir o fewn y Gorchymyn hwn ac unrhyw bolisïau a deddfwriaeth arall fydd yn parhau i gael eu defnyddio o fewn gwaith y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Byrddau Lleol Diogelu Plant ac ati. Mae hefyd angen cytundeb yn nhermau diffiniad gyda gweinyddiaethau nas datganolwyd os ydym i gyrraedd sefyllfa o bolisïau plentyn cyfan. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ym meysydd Tlodi Plant a Throseddu Ieuenctid.

5. Mae angen eglurdeb ar y term agored i niwed - yn gyfreithiol yng nghyswllt y rhyngweithiad rhyngddo â thermau megis ‘plant mewn angen’ a hefyd mewn defnydd cyffredin. Er enghraifft bu Plant yng Nghymru yn defnyddio geirfa sy’n cyfeirio at blant a phobl ifanc agored i niwed yn ogystal a rhai sydd ar y cyrion. Mae hyn wedi sicrhau cynnwys plant nad ydynt efallai yn agored i niwed ynddo’i hun ond sy’n cael anhawster cyrchu gwasanaethau oherwydd y grŵp y maent yn perthyn iddo megis cymunedau du a lleiafrif ethnig, plant gweithwyr mudol neu ffoaduriaid a cheiswyr lloches, teithwyr ac ati. Nid yw pob plentyn yn anabl ychwaith yn ystyried eu bod yn agored i niwed, ond maent yn ystyried eu bod ar y cyrion.

(2) A gafodd termau’r Gorchymyn arfaethedig eu drafftio’n briodol, yn rhy gul neu’n rhy lydan? Os oes angen, sut y dylid ail-ddrafftio’r Gorchymyn arfaethedig a pham?

6. Dylid ymestyn y diffiniad o berson ifanc i 25 oed ac nid dim ond yng nghyswllt addysg.

7. Dylai’r gorchymyn fod yn ddigon eang i fedru cwmpasu materion megis cam-fanteisio ar blant, a’r risgiau newydd megis y rhai o’r rhyngrwyd.

(3) A yw’r diffiniadau o ‘lles’ a ‘gofal cymdeithasol’ yn y Gorchymyn arfaethedig yn addas? Os na, sut y dylid eu hailddrafftio?

Mae Plant yng Nghymru yn gefnogol iawn i’r term ‘lles’ gan ei fod yn rhoi cymariaethau rhyngwladol. Fodd bynnag, mae angen cryn dipyn o waith yng nghyswllt sut i fesur lles yn effeithlon gan ei bod yn anochel y bydd y llysoedd hyn angen hyn mewn trafodion yn y dyfodol.

(4) Mae’r Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys tabl yn nodi rhai eithriadau o gwmpas Materion 15.1 – 15.8. A yw’r eithriadau hyn yn briodol? Os na, sut y dylid eu hail-ddrafftio a pham?

Bu Plant yng Nghymru yn lobio’n galed tu hwnt pan oedd y Ddeddf Plant yn mynd trwy’r Senedd i ymestyn pwerau a chylch gorchwyl Comisiynydd Plant yng Nghymru, ac er bod y maes hwn yn un dadleuol, byddem yn hapus i roi gwybodaeth bellach i’r Pwyllgor. Mae’n bosibl y medrai hyn ynghyd â materion cosbi plant yn gorfforol gael eu trin mewn Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar wahân, ond rhaid peidio anghofio amdanynt.